

## HUGHES, WILLIAM (1838 - 1921), argraffydd a chyhoeddwr, Dolgellau;

**Enw:** William Hughes  
**Dyddiad geni:** 1838  
**Dyddiad marw:** 1921  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** argraffydd a chyhoeddwr  
**Maes gweithgaredd:** Argraffu a Chyhoeddi  
**Awdur:** Alfred Ernest Hughes

Ganwyd 27 Ionawr 1838 yn yr Wyddgrug. Wedi bod yn egwyddorwas yn swyddfa [Thomas Gee](#), Dinbych, symudodd yn 1864 i Dolgellau i gymryd gofal swyddfa *Y Dysgedydd*, a ddelid ar y pryd gan yr hon a ddaeth yn briod iddo. Daeth ei swyddfa argraffu yn un o'r rhai mwyaf adnabyddus yng Nghymru, fel y gwelir oddi wrth y rhestr o'r llyfrau gwerthfawr a drowyd allan ynddi. Y mae cerddoriaeth Cymru, yn enwedig cerddoriaeth gynulleidfaol, yn ddyledus iddo. Efe a anturiodd gyhoeddi gwaith [John Ambrose Lloyd](#) pan wrthodwyd ef gan gyhoeddwyr eraill, sef *Aberth Moliant*, *Gweddi Habacuc*, a bron bob un o'i anthemau. Cyhoeddodd hefyd oratorio ' Ystorm Tiberias ' [Edward Stephen](#) ('Tanymarian'), a llu o'i anthemau yntau.

Cychwynnodd newyddiadur wythnosol, *Y Dydd*, yn 1868, gyda [Samuel Roberts](#) ('S.R.') yn olygydd a [Richard Davies](#) ('Mynyddog') yn ei gynorthwyo. Bu yn dwyn allan *Y Dysgedydd* am 56 mlynedd, a hefyd *Dysgedydd y Plant* a *Cronicl Bach J.R.* am gyfnod. Cymerai ddiddordeb mewn materion cyhoeddus a chrefyddol; yr oedd yn Rhyddfrydwr pybyr, yn henadur o gyngor sir Meirion, yn ustus heddwch, ac yn ddiakon am 55 mlynedd. Bu farw 23 Chwefror 1921 yn 83 oed, a chladdwyd ef yn y Brithdir, ger Dolgellau.

### Awdur

Alfred Ernest Hughes, (1878 - 1956)

### Ffynonellau

Adnabyddiaeth bersonol

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20734641](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

